



The  
**Ulrike Michal**  
Foundation  
for the Arts

Datganiad i'r Wasg **11.01.2021**

## **Blwyddyn Newydd, Sefydliad Celfyddydol Newydd**

Mae tri o gyfeillion Ulrike Michal, niwrolegydd milfeddygol yn Sir Gaer, yn falch o lansio sefydliad celfyddydol newydd yn swyddogol er cof amdani.

Bydd **Ulrike Michal Foundation for the Arts** yn bodoli “i hyrwyddo, hybu ac ymestyn caru, gwerthfawrogi, mwynhau, deall ac arfer y celfyddydau cain, addurnol a chymhwysol ymysg pobl o bob oed trwy brofiadau mewn amgueddfeydd, orielau celfyddyd, eiddo hanesyddol ac yn y gymuned yn gyffredinol, fel unigolion ac ar y cyd, fel cyfranogwyr a gwylwyr,” ar draws Gogledd Cymru, Glannau Mersi a siroedd Caer, Amwythig a Henffordd ar y gororau.

Meddai David Brown, Cadeirydd Ulrike Michal Foundation, “yn ogystal â'i gyrfa broffesiynol lwyddiannus iawn, roedd Ulrike yn artist talentog ac mae'n gwbl briodol y dylid dal i gofio amdani trwy roi cymorth a chefnogaeth i artistiaid eraill a chyrrff cysylltiedig â'r celfyddydau drwy'r elusen hon yn ei henw.”

Meddai Lynn Podmore, Trysorydd Ulrike Michal Foundation, “Mae cymynrodd o ystâd Ulrike wedi bod yn fodd i greu'r sefydliad hwn a rhoi grantiau fel bod mwy o bobl yn gallu mwynhau ac arfer sgiliau traddodiadol y celfyddydau cain ac addurnol a roddodd gymaint o fwynhad iddi hi.”

Ychwanegodd Jonathan Gammond, Ysgrifennydd Ulrike Michal Foundation, “Rydym yn annog unigolion celfydd a sefydliadau celf o'r rhanbarthau yng Nghymru a Lloegr lle mae'r Sefydliad yn gweithredu i wneud cais. Mae rhagor o fanylion ynghylch y rhaglen grantiau a meini prawf cymhwyster i'w cael ar ein gwefan: [www.umffta.org.uk](http://www.umffta.org.uk)”

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: [info@umffta.org](mailto:info@umffta.org)**

**Gwefan: [www.umffta.org.uk](http://www.umffta.org.uk)**

## Gwybodaeth Gefndirol



Fe symudodd Ulrike Michal i Loegr ym mis Tachwedd 2006 o'i chartref yn y Swistir i weithio fel niwrolegydd a llawfeddyg milfeddygol yn Ysbyty Milfeddygol Chestergates, rhwng Ellesmere Port a Chaer. Tra bu yno, cafodd enw rhyngwladol ymysg perchenogion cŵn a chathod am ei medrusrwydd mewn moddion milfeddygol a'i sgiliau fel llawfeddyg.

Ochr yn ochr â'i gyrfa broffesiynol, roedd gan Ulrike gariad gydol oes at gelfyddyd, a chafodd lawer o bleser fel artist gweithredol, fel aelod bywiog o'r Liver Sketching Club, yn dilyn ei diddordeb yn artistiaid y Dadeni yn yr Eidal, ac fel myfyriwr rhan-amser y celfyddydau cain ym Mhrifysgol Bangor, Gogledd Cymru. Bu farw Ulrike Michal o ganser ar 6<sup>ed</sup> Ebrill 2016, yn 39 oed.

Mae'r Sefydliad wedi dewis rhanbarth Gogledd Cymru, Glannau Mersi, a Siroedd Caer, Amwythig a Henffordd ar gyfer ei weithgareddau oherwydd mai dyma'r lleoedd a wyddai Ulrike orau ac a garai.